



Welais i'r pry llwyd mawr (25mm) yma, *Tabanus sudeticus*, wrth fynd am dro o amgylch Llyn Cwm Dulyn ar yr 24 Awst 2017.

## Tegyll dryslyd

“Beth yw'r rhain” gofynnodd Keith O’Brien wrth y gwybodusion, “ar bostyn giat yn Llanfachreth, 22 Hydref 2017?”



Tagell ddryslyd derw *Daedalea quercina* meddent

## Paru anhymhorol?



Meddai John Harold am ei lun isod:

“tynnwyd ddoe 28 Hydref - mentyll cochion “wrthi” ar ddanadl poethion ger Rhydychen”.

Pa mor anarferol yw mentyll cochion yn paru ddiwedd mis Hydref? Beth fydd tynged eu hepil tybed? Cofiw'n bod mentyll cochion y wlad yma - fel arfer - yn fewnfudwyr o'r cyfandir deheuol. Ydi hyn yn newid tybed...?

Dyma'r ddau gofnod hwyraf yn y Tywyddiadur:

9 Tach 2006: Aled Jones yn son ei fod wedi gweld mantell goch dydd gwener diwethaf yng nhyffiniau'r BBC ym mangor ac un arall yn Penrhyn dydd llun

Gwelfor, Waunfawr 10 Tach 2006: Mantell goch yn hedfan o gwmpas ardd er yn wyntog ac eitha oer

## Cigfran ar y Glaslyn




Cigfran ar y Glaslyn ym Mhorthmadog ddoe [16 Tachwedd]. Rhywogaeth arall sydd wedi cynyddu yn ei rifau yn yr ardal yma yn fy amsar i. Wrth fy modd hefo'r adar yma.



Drannoeth Y Breian (ac efallai Offelia flaenorol)



Pont Aberffraw  
Wil Williams



'Swigod môr  
wedi eu  
chwythu,  
Cernyw



Crwban fôr Iledrgefn, Rhosneigr, David Harries



Cimwch yn y basddwr



Llygoden fôr  
Bae Colwyn  
Tecwyn  
Vaughan Jones



Morla ifanc marw  
Menai Caernarfon  
Duncan Brown

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia  
Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)



## Pigion o WiciNatur: Edward Edwards, Faenol Isa, Rhan 2: Da byw

Cyfraniad achlysurol yw hwn o gynnyrch WiciNatur o dudalennau y Wicipedia Cymraeg. Mae'r dudalen lawm i'w chael yma. Rwy Tomos, y diweddar Tom Jones ac Arfona Jones fu'n gyfrifol am drawsgrifio dyddiadur gwreiddiol EE i'r Tywyddiadur, a Rwy Tomos baratodd y dudalen bywgraffiadol hon i Wici. Dyma barhad ar erthygl Rwy o'r rhifyn diwethaf. Mae'r ddogfen wreiddiol wedi ei chadw yn Archifdy Gwynedd (Dolgellau) dan y côd cofrestru Z/M/3192/1

### Gwartheg

Yn 1873 cedwid pump buwch, Blacan, Buty, Lady, Harriet a Meinwen. Erbyn 1876 mae Littlan a Coch an i'w cael. Yn 1877 sonnir am ferch Harriet a merch Meinwen ond yn raddol mae'r enwau yn diflannu. Erbyn 1883-4 cyfeirir at y fuwch goch cawn Benwen, y fuwch fraith, y fuwch goch hynaf a'r fuwch goch ieuengaf. (Gellid tybio mai Betty neu Eliza oedd yn enwi'r gwartheg.) Mewn patrwm cyson mae un fuwch yn mynd at y tarw ym mis Chwefror a thair neu bedair arall dros yr haf. Cofnodir genedigaeth llo ym mis Tachwedd a thair neu bedair llo ddiwedd mis Ebrill neu ym mis Mai. Er nad oes sôn am gorddi ar ôl 1873 mae'n ymddangos fod Faenol Isaf yn cynhyrchu eu caws a'u menyngau eu hunain gan werthu ambell anifail nad oeddent ei angen. Mae'n sôn unwaith am werthu gwartheg yn ffair Machynlleth, unwaith am werthu gwartheg yn ffair Abergynolwyn ac ar dri achlusur gwerthu buwch, tarw a chasesg yn ffair Tywyn

### Defaid

Gwahaniaethodd Edward rhwng "anifeiliaid" a "defaid". Bu ganddo drefniant gyda Morgan William, Rhyd Galed, yn y mynyddoedd uwchben Pennal, i ofalu am ei ddefaid dros y gaef. Cofnododd "y defaid yn dywad yma" ar ddechrau mis Tachwedd pob blwyddyn ac "y defaid yn mynd adra" ddiwedd mis Mawrth (yr enw ar yr arferiad hwn o aeafu defaid o ffermydd yr uchedir yw defaid cadw neu ddefaid tac TE). Daeth Morgan a'i fab Thomas i fwrw golwg trosdynt a'u trin pan oedd angen. Treuliodd Thomas ambell ddiwrnod yn gweithio yn Faenol Isaf ac aeth Rowland a Sarah i Ryd Galed yn achlusurol i ymfyn coed neu eirin.


### Moch

Anfonai'r hwch at y baedd ddwywaith y flwyddyn. Nododd fod hwch wedi esgor ar berchyll ddwywaith y flwyddyn a thua mis wedyn "mae Joseph yn torri ar y perchyll". Cedwid rhai o'r moch trwy'r flwyddyn. "Dyrnwyd haidd i'r moch" ac "aeth at y Felin am flawd i'r moch" a berwodd "gwchenad o datws i'r moch". Trosglwyddodd rhai ohonynt yn fyw i berchennog arall: e.e. "hebrwng dau fochyn i Bennal" a "plant yn mynd a'r moch i'r dre" ond eraill yn cael eu lladd a'u pwyso. Mae ambell mochyn bach yn mynd at ddwy nith weddw Edward. Arferai ladd mochyn cyn y Nadolig ac anfon hanner i Jane Richard, gwraig weddw a chwaer Edward.

### Ceffylau

Cedwid dwy gaseg a chyfeirir yn rheolaidd at un ohonynt yn cymeryd stalwyn. Cafodd Jole chwech o ebolion dros ddeuddeg mlynedd y dyddiadur, a Boney ac wedyn Darly, un yr un. Cedwid yr ebolion am ddwy neu dair blynedd, eu pedoli a dechrau eu hyfforddi gan "(g)weithio y bolas i droi ochr yn ochr yn y cae" ac wedyn eu gwerthu.

## Fferm Hendre Wen, fel ag yr OEDD



### ENWAU CAEAU FFERM YR HENDRE YN 1919

Cyfeirnod Map -SH 809 781

Dyma fap yn dangos enwau caeau yn Fferm yr Hendre, Cyffordd Llandudno, yn 1919. Yn 1923 symudodd teulu Richard Owen o Benrhosgarnedd yn denantiaid ar y fferm oedd erbyn hynny gyda ffermdy newydd - 'Hendre Wen'. 'Roedd yn rhan o stad brynodd Cyngor Sir Gaernarfon i'w gosod i gyn filwyr. Yn ddiweddarach, yn 1948, prynwyd y fferm gan y teulu. Hen ffermdy 'Yr Hendre', a adeiladwyd yn wreiddiol yn 1750, sydd yn yr ail lun. Fe'i paentiwyd yn gelfydd iawn gan Rowena Wyn Jones (yr un fu'n gyfrifol am luniau gwych gwreiddiol Cyfres Sali Mali). Gareth Pritchard

Clocwedd o'r brig: **Gors, Gwaen Fynydd, Cae Fallan, Cae Cegin, Cae Cefn Tŷ, Cae Glas, Penycefn, Cae Maes, Twll Llwynog, Cae Penyffordd**, ac yn y canol, **Cae Brwnt**. Cewch weld yn y Bwletin nesaf fap cyffelyb o'r fferm fel ag y MAE heddiw.

Adnewyddwyd ffermdy 'Yr Hendre' yn chwaethus gan Vince ac Anwen Hughes yn nechrau'r saithdegau.



## Yng ngolau'r lloer



Be 'dio bwys am Lewyrch yr Arth pan fedri di gael lluniau Tylluan Wen yng ngolau'r lleuad

Keith O'Brien

## Ydi'r pal yn bwrw ei big?



Ychydig wythnosau yn ôl (canol Medi), ymhlith y cerrig ar draeth Porth Ceiriad, ger Abersoch, cawsom hyd i hwn. Yr oeddwn yn meddwl mai PIG pâl ydoedd, ond ar ôl siarad â Twm Elias rwy'n deall mai GORCHUDD sydd gan y pâl dros ei big yn ystod yr amser paru ydyw a bod yr aderyn yn ei fwrw cyn gadael am y môr mawr ddiwedd yr haf. Pig plaen, du sydd ganddo drwy'r hydref/gaeaf. Mae nifer o gyfeiriadau ar y we yn cadarnhau y 'bwrw' e.e. RSPB

"Some birds moult more than just feathers - puffins actually shed the colourful horny plates which cover their bills and regrow them ready for the next breeding season" gweler

<https://www.rspb.org.uk/.../fun-facts.../features/moult.aspx>

Fel ddeudod Lynda Thomas:  
Dysgu rhywbeth newydd pob dydd!!!

## Hogia drwg

AR Y DYDD HWN (17 Tachwedd), Waunfawr yn 1905:

"9 boys were punished on Thursday for throwing stones after a boy selling onions and some of them taking some of the onions from the cart." Llyfr Log Ysgol Waunfawr, Arfon

Tybiaf mai Sioni o Lydaw oedd y gwerthwr nionod. Enghraifft o elyniaeth rhagfarnlyd nad yw efallai yn cael ei gydnabod gan awduron hanes y Sionis.

Mae'r ieithwedd yn awgrymu i mi mai Cymro Cymraeg oedd y sawl (Ysgolfeistr, Sgŵl) a ysgrifennodd hwn - mae *throwing stones AFTER* yn hytrach na *AT* â thinc Cymreig iddo. Ydych chi'n cytuno?

## Hogyn mawr

AR Y DYDD HWN (12 Tach) yn 1768

Dinbych: "Erbyn y 12 yr oedd hi yn eira hogun mawr. Buan y darfu hwnnw."

Llyfrau Atgofion a Chyfrifon Owen Thomas CLIGC XVI 1970

Beth yw 'eira hogun mawr' pobl Ddinbych.

Meddai Rhian Jones o Glwyd: "'hogyn' = 'eithaf' yn ol Geiriadur Prifysgol Cymru, felly eira eitha mawr." Rhian Jones

**Dilynwch Facebook Cymuned Llên Natur NEWYDD  
am ein holl ddigwyddiadau.**



## Ysguthan ifanc



Meddai Sue Lindsey o Solihull ddoe [7 Tachwedd]: "Got this little chap in a cat box in the utility. Been in the garden all day injured and didn't want Theo eating it!" Sue Lindsay

Ysguthan ifanc ydi hon. Mae nhw'n datblygu'r goler wen a'r lliwiau gwyrdd a coch ar yr wddf a'r fron wrth aeddfedu  
Iolo Williams

## Yr arlwy o aeron



Meddai Sion Jones, Abergele: "Mae 'na glawdd a'i llond o aeron [cotoneaster, tua'r 9 Tachwedd, 2017] gerllaw fy nhŷ. Mae nhw ar y clawdd ers wythnosau, tydy'r adar ddim yn cymeryd sylw ohonynt. "Sgwn i pam? Ydy'n bosib bod ganddynt ddigon o fwyd ar hyn o bryd? A fe ddaw amser pan fydd y tywydd yn wirioneddol oeri. Felly, byddant yn llenwi eu boliau?" Sion Jones



Beth am nodi aeron yn eich gardd - MATH o aeron, MAINT y cnwd, PRYD mae nhw'n cael eu bwyta. Neu jest tynnwch luniau dyddiedig a'u hanfon i Llên Natur neu ein tudalen Cymuned ar Facebook. Cofioch nodi BLE.

**Mi fydd yn ddiddorol cael llun arall o lwyn Sion tua - dwn i'm - mis Ionawr efallai?**

## Chwilen gladdu Craig Cwm Silyn




Ai *Nicrophorus vespilloides* yw hwn? Ddoe (18/11) ar ochr ogledd orllewinol Craig Cwm Silyn, ar tua 500m o uchder. Edrych yn debyg, gan gynnwys y teimlyddion cwbl ddu, ond yn fy llyfr mae'n dweud mai yn y gwanwyn a'r haf y'u gwelir fel rheol." Elen Huws  
Cawsom gyngor entemolegydd CNC

Mike Howe; mae Elen yn llygad ei lle.

Ewch i [Gymuned Facebook Llên Natur](#) i weld mwy.

## Dehongli tywydd Uncl Charlie



Mae ysgrifen y cerdyn post hwn oddiwrth Uncl Charlie, perthynas teulu Emrys Llywelyn, yn cynnig i ni gofnod tywydd penodol ar 7 Chwefror 1919 (uchod a chofnod cyntaf isod). Mae'n dangos nid yn unig y tywydd caled ar y diwrnod ond hefyd, o gasglu ynghyd cofnodion eraill o'r cyfnod yn y Tywyddiadur (ee. ail gofnod isod), bod tywydd caled ym Mhenllŷn hefyd - ac yn llawer ehangach mae'n siwr. Roedd y milwr Charlie yn amlwg yn disgwyl dod adref o ogledd Ffrainc unrhyw funud, ar ôl i'r hogia orfod aros ymlaen yno dri mis ar ôl i'r rhyfel ddod i ben. Roedd eu negeseuon yn mynd trwy'r sensor o hyd!


7/2/1919: Gogledd Ffrainc: "Just a PC you see I am still here hoping to go every day. The weather is very cold snow every where making the streets which in all these towns are paved with stones very dangerous to walk". (Llun o Le Monument de Testelin, Lille, ar y tu blaen)  
Cerdyn Post (eiddo Emrys Llywelyn)

7/2/1919

Rhiw: "Gwener 7 Turn. Rhew caled."

Dyddiadur Griffith Thomas, Ael y Bryn (Gwefan

[www.rhiw.com](http://www.rhiw.com))



Dyma geisio dehongli'r siart: Y rheswm nad oes ffryntiau i'w gweld ar y siart hon (cydnebir [www.Wetterzentrale.org](http://www.Wetterzentrale.org)) yw nad oedd y cysyniad o ffrynt tywydd wedi ei ddatblygu yn 1919. Yn wir mabwysiadwyd y gair "FFRYNT" (yn yr ystyr milwrol) ar ôl y Rhyfel fel term wedi ei gymhwyso i faes meteoroleg fel rydyn ni'n ei

adnabod heddiw.

Mae'r pwysedd uchel (H) yn tynnu aer oer o Rwsia clocwedd o'i gwmpas dros ogledd Ffrainc ac mewn cylch i Gymru. Y pwysedd isel (T) hefyd yn tynnu aer oer i'r Alban. Pawb yn cytuno?

**Ydych chi wedi edrych yn fanwl ar GEFNAU eich cardiau post teuluol. Oes yna gofnod tywydd yn eu plith - SYLW AM Y TYWYDD yn cofnodi LLE a PHRYD (yn ysgrifenedig neu farc post? Tynnwch lun a danfonwch atom.**



## Gwerth y fasarnen ers talwm?

AR Y DYDD HWN (14 Tachwedd) 1734:

Llanfechell :

*“Nov.14th The Wind E.S.E. very cold, dark & cloudy, did not freeze but thawed very gently, finished to day pruning the trees in Cae ty'n y LLwyn, except the great Maple (vulgarly called Sicamore) which I reserve till spring.”*

Dyddiadur William Bulkeley, Brynddu, Llanfechell, Môn

### Sylwadau:

Enwau Cymraeg ar *Acer pseudoplatanus*:

masarnen, jacan, Jacmor (llygriad o sicamor, jac efallai yn ddirmygus?), masarn cyffredin, masarn mwyaf, masarnwydd, masarnwydd mwyaf (cyf. *great maple*), sycamorwydden.

Y gair **SYCAMORE** (yn Saesneg o leiaf) yn oes Bulkeley yn ôl y son yn air cwrs a chomon. Ond y fasarnen ei hun yn ddigon amheuthun i deilngu cael ei docio yn ofalus gan Bulkeley.

Difyr bod yr enw “Sycamore” (sycamor[wydd] hefyd?) yn is-raddol 300 mlynedd yn ôl (yn wahanol i heddiw), ond y goeden ei hun yn amheuthun (hefyd yn wahanol i heddiw)! Sylwadau rhywun.... ?

Cofiwch am **Gwpan Nanteos (Bwletin 109, tud 6)** (cwpan - amheuthun! - torri syched Crist) wedi ei wneud o fasarn.



Dyma ddeilen a ganfuwyd yn nyddiadur Thomas Jones, Cwningaer, Niwbwrch yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif. Awgrym efallai mai coeden amheuthun oedd y fasarnen i hwnnw hefyd, yn enwedig o gofio mai ardal ddi-goed fyddai'r ardal honno yn y cyfnod (fel heddiw i raddau).


## Y 'wasg' caws llyffant



Beth am baratoï argraffiad sborau (gwaelod) cyn bodio trwy eich beibl ffyngau i adnabod eich madarchen? wystrysen y coed **Pleurotus ostreatus** dwi'n meddwl yw hwn.

O ardal Trwyn y Tâl Trefor, 18 Tachwedd. Dodwch y capan ar bapur du neu wyn a gadewch o am ddiwrnod... a hei presto!

## Cysgodion Reykjavik



Bu Ifor Williams ar ei wyliau! Dyma un o'i negeseuon adre o Wlad yr Iâ:

*“Yn Reykjavik, 'rydych ar ledred o 64.1265° i'r gogledd. Dyma gysgodion yn dangos effaith hynny, gwelwch fod llinell y cysgod yn syth, mae hyn yn nechrau mis Tachwedd, sylwch ar yr amser.”*

Ifor Williams

Atebodd y ffisegwr Hywel Madog fel hyn:

“Amser; y mae Reykjavic yn glynu at GMT trwy'r flwyddyn, oherwydd ei fod i'r Gorllewin o Greenwich nid yw'r haul yn ei anterth tan oddeutu 13.30. Felly er bod y cloc ar 11.45 ni fydd yr haul yn cyrraedd ei anterth am awr a thri chwarter arall.

Nid yw'r cysgod yn llorweddol; y mae ongl o ryw saith gradd oddi ar y llorweddol.

Awgryma hyn fod y llun wedi ei dynnu tua dechrau Tachwedd neu ddechrau Chwefror.

Er gwybodaeth y mae Reykjavic rhyw 2.5 gradd i'r de o'r Arthrod (Cylch yr Arctig) felly am 13.30 ar y diwrnod byrraf o'r flwyddyn fe fuasai'r cysgod 2.5 gradd oddi wrth linell lorweddol.”

Hywel Madog

## Pyst dan yr haul



Gwawr ar y Glaslyn. 'Jacob's ladder' yn Saesneg ond oes na term/au yn y Gymraeg am hyn? Eifyn Lewis

Pyst dan yr haul fyddwn ni'n ei ddweud. [Machynlleth?]

Olwen Ifona Thomas

Post dan yr haul odd fy rhieni yn arfer dweud yn Sir Benfro - ar Wyddgrug medde nhw? Arwydd of law, wrth gwrs!

John Evans

Postion houl" yn Llanymddyfri

Lis Puw

Pyst dan yr haul sydd yn llyfr ymadroddopn tywydd “Am y Tywydd” gan Twm Elias

Ymadrodd yn arferedig dros Gymru yn amlwg





**Nadolig Garddio a Mwy  
Ar S4C yn fuan**

A lle gest ti dy garw tybed? **pryd a lle** cofia, yn null traddodiadol Llên Natur!!!